Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

Lisa Curtis-Jones
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Dyddiad: 08 Gorffennaf 2026

Annwyl Lisa Curtis-Jones

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Archwiliad Sicrwydd o wasanaethau plant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT)**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 18 ac 20 Mai 2026. Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol o ran cefnogi, mesur a chynnal gwelliannau i bobl.

1.2 Roedd gan ein llinellau ymholi allweddol bwyslais penodol ac roeddent yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

**Pobl – llais a rheolaeth**
Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni’r hyn sy’n bwysig iddo?

**Atal**
I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl?

**Llesiant**
I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff y plant eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

**Partneriaeth**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl?

## 2. Terminoleg a Diffinio Meintiau

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

## 3. Crynodeb o'r Archwiliad Sicrwydd

3.1 Mae strategaethau'r awdurdod lleol yn cyd-fynd yn glir â Deddf 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r arweinwyr yn pennu cyfeiriad a arweinir gan atal gyda ffocws pendant ar ganlyniadau hirdymor, cydweithio ac integreiddio. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio naratif "ystyried y teulu" cyson ac yn rhoi llais plant wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

3.2 Mae'r gwasanaethau plant yn cael budd o arweinwyr tosturiol a gweithlu sy'n llawn cymhelliant. Mae'r cryfderau hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwelliant parhaus ac ar gyfer ymgorffori ymarfer sy'n sicrhau canlyniadau gwell i blant a theuluoedd. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd cynyddol o ddulliau gweithredu systemig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ystyriol o seicoleg. Mae'r Hwb Helpu Cynnar yn darparu cymorth hygyrch a chydgysylltiedig, a rhaglenni wedi'u targedu sy'n dangos gwelliannau mesuradwy yn y canlyniadau i bobl.

3.3 Mae trefniadau partneriaeth cryfach wedi gwella'r ffordd yr ymdrinnir â rhianta corfforaethol a chymorth i blant ag anghenion cymhleth. Mae llai o blant yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac mae ffocws clir ar sefydlogrwydd o fewn trefniadau teuluol. Ategir y cryfder hwn yn dda gan ddull ymatebol a arweinir gan werthoedd o ddileu elw mewn gofal plant.

3.4 Nid yw llais y plentyn yn cael ei glywed yn gyson yn ymarferol, ac mae ansawdd asesiadau yn amrywiol. Er bod yr awdurdod lleol yn bodloni'r rhan fwyaf o ofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru mewn modd amserol, caiff trothwyon eu cymhwyso'n anghyson ac mae angen datblygu ymatebion amlasiantaethol i niwed y tu allan i'r teulu ymhellach.

3.5 Mae gan yr awdurdod lleol fframwaith sicrhau ansawdd sy'n aeddfedu a rhaglen o archwiliadau er mwyn canolbwyntio ar ansawdd ymarfer. Ategir y prosesau goruchwylio hyn gan ystod o baneli sydd ar gamau amrywiol o ran gweithredu ac adolygu. Mae llesiant cadarnhaol y gweithlu yn darparu llwyfan ar gyfer ymarfer myfyriol a her adeiladol. Mae angen gwneud rhagor o waith i

wella mesurau perfformiad sy'n archwilio ansawdd asesiadau, prosesau gwneud penderfyniadau a chanlyniadau. Mae hyn yn seiliedig ar ffocws pellach ar chwilfrydedd proffesiynol a datblygu diwylliant o gefnogaeth a her ar lefel uchel.

3.6 Mae'r arweinwyr strategol wedi datblygu polisïau ac arferion, gan gynnwys protocolau camfanteisio, canllawiau ar drothwyon a'r model ymarfer systemig. Er bod y rhain yn darparu sylfaen ar gyfer arfer cyson, mae ymarferwyr mewn asiantaethau gwahanol yn dangos dealltwriaeth gymysg o'r ffordd y cânt eu cymhwyso yn ymarferol ac mae hyn yn cyfyngu ar gysondeb wrth wneud penderfyniadau ac effeithiolrwydd gwaith amlasiantaethol. Wrth i'r broses weithredu fynd rhagddi, mae cyfle i gryfhau dealltwriaeth a rennir, her broffesiynol a pherchnogaeth dros benderfyniadau. Bydd hyn yn cryfhau cylchoedd gwelliant parhaus ac yn cynnig tystiolaeth well o'r canlyniadau i blant a theuluoedd.

## 4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Pobl**

**<u>Cryfderau</u>**

4.1 Byddai bron pob aelod o'r staff yn argymell gweithio i'r gwasanaethau plant. Dywedwyd bod yr arweinwyr yn gweithredu mewn ffordd dosturiol, gefnogol a chynhwysol. Ceir lefel uchel o gefnogaeth ac ethos un gwasanaeth rhwng yr arweinwyr, y timau a'r ymarferwyr. Caiff cynlluniau timau eu cynnal ar draws y gwasanaeth er mwyn cyfleu blaenoriaethau a gwelliannau bwriadedig.

4.2 Mae cynlluniau gweithredu'r gweithlu yn nodi dull strwythuredig, cam wrth gam, o ddatblygu'r gweithlu, wedi'i ategu gan drefniadau llywodraethu clir sy'n hyrwyddo tryloywder a phrosesau goruchwylio effeithiol. Mae morâl yn gadarnhaol ar y cyfan, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ymrwymiad a chymhelliant yr arweinwyr a'r ymarferwyr i gyflawni canlyniadau gwell i bobl.

4.3 Mae rhianta corfforaethol yn gweithredu fel agenda proffil uchel, dan arweiniad uwch-swyddogion, gyda threfniadau llywodraethu cryfach a chamau i gynnwys plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r arweinwyr yn canolbwyntio ar lais pobl yn gyson a cheir tystiolaeth i ddangos bod gwasanaethau yn datblygu mewn ymateb i adborth. Er enghraifft, mae'r Hwb Helpu Cynnar yn ceisio

adborth drwy godau QR yn rheolaidd ac mae adborth gan ofalwyr wedi gwella'r ffordd y caiff asesiadau gofalwyr eu gweinyddu yn ddiweddar.

4.4 Mae'r arweinwyr yn ystyried cyfleoedd i arloesi, gwneud arbedion a gweithio'n fwy effeithlon. Mae ap The Social Work Way yn rhoi adnoddau i'r ymarferwyr sy'n arbed amser, yn lleihau gwaith gweinyddol ac yn eu helpu i aros yn drefnus. Dywed yr ymarferwyr fod yr arweinwyr yn barod i ystyried syniadau ar gyfer datblygu gwasanaethau.

4.5 Mae dull ymarfer yr ymarferwyr yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ystyriol o seicoleg ac yn systemig. Defnyddir cronolegau a genogramau yn rheolaidd fel rhan o'r ymarfer ac maent yn cefnogi dealltwriaeth sylfaenol o'r plentyn o fewn ei system deuluol a'i gyd-destun ehangach dros amser, gan gynnwys patrymau risg gronnol.

4.6 Mae'r ymarferwyr yn cael eu goruchwylio'n gyson ac yn cael cyfleoedd rheolaidd i fyfyrio a chael cymorth. Mae hyn yn cynnwys sesiynau ymarfer systemig, lle mae setiau dysgu gweithredol yn hyrwyddo her adeiladol, safbwyntiau amrywiol, atebolrwydd, datblygu sgiliau a dysgu. Byddai dadansoddi'r hyn sy'n bwysig, y canlyniadau, a'r camau nesaf yn well yn cryfhau ansawdd sesiynau goruchwylio ffurfiol ymhellach.

4.7 Cynigir gwasanaeth i bobl yn Gymraeg neu'r iaith o'u dewis fel mater o drefn ac mae'r ymarferwyr yn ystyried eu hanghenion diwylliannol a'u hanghenion cyfathrebu.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.8 Nid yw llais y plentyn yn cael ei glywed na'i gofnodi'n gyson mewn cofnodion achos, asesiadau ac adolygiadau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl ifanc a grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd. Pan gaiff llais y plentyn ei glywed yn effeithiol, caiff y plant eu gweld ar eu pen eu hunain a gwneir gwaith uniongyrchol ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt. Pan na chaiff llais y plentyn ei glywed gystal, ni chaiff plant eu gweld ar eu pen eu hunain a/neu caiff llais y plentyn ei grynhoi gan yr ymarferwyr neu ei ysgrifennu yn y person cyntaf gan ddefnyddio iaith broffesiynol. **Dylai'r arweinwyr weithio gyda'r ymarferwyr i hyrwyddo safonau cyson ar gyfer clywed profiad bywyd y plentyn a'r hyn sy'n bwysig iddo.**

4.9 Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o eiriolaeth yn seiliedig ar faterion yn cael ei hyrwyddo, gan gynnwys eiriolaeth gyson ar gyfer plant digwmni sy'n ceisio lloches a phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Er y cynigir eiriolaeth i lawer, ni chynigiwyd eiriolaeth i rai plant a rhieni pan oedd ei hangen. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd pryderon am ddiogelu neu anghytundebau

ynghylch cynllunio gofal. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwasanaeth eirioli yn cael ei gynnig yn gyson i bob plentyn cymwys, gan gofnodi'r cynnig, y nifer sy'n derbyn y cynnig a'r rhesymau dros wrthod.**

4.10 Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion cyson o ymyriadau i ddangos cyswllt mynych â theuluoedd. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion yn cael eu hysgrifennu i safon ddigonol yn gyson, ac mae fforymau gwneud penderfyniadau pwysig nad ydynt yn cael eu cofnodi mewn modd amserol. Nododd yr arweinwyr y maes hwn i'w wella drwy archwiliadau, maent wedi darparu aide memoirs i annog safonau cyson, ac mae ganddynt gynlluniau ar gyfer hyfforddiant. **Rhaid i'r awdurdod lleol wella ansawdd cofnodion i gefnogi prosesau effeithiol ar gyfer goruchwylio, gwneud penderfyniadau a sicrhau atebolrwydd.**

**Atal**

**<u>Cryfderau</u>**

4.11 Mae'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn darparu pwynt cyswllt unigol i bobl a gweithwyr proffesiynol roi gwybod am bryderon diogelu. Mae gan y gwasanaethau plant staff sy'n gweithio ar draws yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth a'r Hwb Helpu Cynnar. Mae hyn yn cefnogi lefel gymesur o gydleoli gan helpu i gydbwyso prosesau integreiddio rhanbarthol â llwybrau lleol effeithiol.

4.12 Mae'r Hwb Helpu Cynnar yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ac yn ceisio sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Mae pobl yn gwerthfawrogi cymorth staff yr Hwb Helpu Cynnar a dywedir bod gwasanaethau ataliol yn hygyrch, yn barchus ac yn rhoi anogaeth.

4.13 Mae amrywiaeth o wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar ar gael i gefnogi teuluoedd, atal anghenion rhag gwaethygu a darparu ymyriadau wedi'u targedu. Mae gwasanaethau'n defnyddio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gydberthnasau, yn ystyriol o drawma ac yn anfeirniadol er mwyn cefnogi ymgysylltiad ac ymddiriedaeth barhaus gan rieni.

4.14 Gall y Tîm o Amgylch y Teulu ddod â phawb ynghyd a chydgysylltu llawer o wasanaethau. Mae gwasanaethau ataliol fel Camau Babi a Camau Nesaf yn darparu llwybr cydlynol ac **arferion cadarnhaol** i gefnogi teuluoedd cyn genedigaeth, ar ôl genedigaeth ac yn dilyn achosion gofal.

4.15 Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau llwybrau i'r Tîm Plant ag Anableddau. Caiff cysylltiadau eu cyfeirio drwy'r Hwb Helpu Cynnar ac mae dulliau cymesur ar gyfer Gofal a Chymorth. Mae hyn yn cynnwys meini prawf cymhwysedd diwygiedig a systemau i adolygu achosion lle yr asesir bod anghenion yn sefydlog dros amser.

4.16 Mae gwasanaethau allgymorth yn darparu cymorth hyblyg ac ymatebol i deuluoedd, gan gynnwys cymorth ymarferol ac ymyriadau wedi'u targedu mewn ymateb i anghenion, risgiau a chanlyniadau a nodwyd. Mae gwasanaethau allgymorth yn gweithio'n dda gyda thimau gofal a chymorth i sicrhau parhad cymorth a dull cydgysylltiedig o helpu plant a theuluoedd.

4.17 Mae tystiolaeth bod taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddiwallu anghenion a aseswyd, gan alluogi trefniadau cymorth hyblyg ac wedi'u teilwra sy'n gwella'r canlyniadau i blant a theuluoedd.

4.18 Mae'r awdurdod lleol wedi gwrando ar adborth gan ofalwyr ac wedi cryfhau'r trefniadau gweinyddu ar gyfer asesiadau gofalwyr drwy gwblhau asesiadau gofalwyr annibynnol. Mae'r arweinwyr hefyd wrthi'n gwella argaeledd gwasanaethau seibiant i ofalwyr. Er bod gan ofalwyr safbwyntiau cymysg ynglŷn â mynediad at wasanaethau ac argaeledd gwasanaethau seibiant, mae'r datblygiadau hyn yn newydd a bydd yn cymryd amser iddynt ymsefydlu a gwella canlyniadau. Dylai'r arweinwyr barhau i ymgynghori â gofalwyr er mwyn monitro effaith y datblygiadau hyn i'r gwasanaeth yn ymarferol.

**Meysydd i'w Gwella**

4.19 Mae partneriaid rhanbarthol wedi datblygu polisi trothwy yn ddiweddar sy'n ceisio cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cyson a theg ar gyfer atgyfeiriadau. Nid yw'r gwasanaethau plant yn rhoi hyn ar waith yn gyson fel rhan o'r ymarfer ac nid oedd llawer o'r ymarferwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn. **Dylai'r arweinwyr gryfhau'r cynlluniau ar gyfer gweithredu er mwyn hyrwyddo prosesau gwneud penderfyniadau cyson a theg.**

4.20 Er bod y rhan fwyaf o bobl yn cael ymateb cymesur i'w hangen, ni ddefnyddir lefel ddigonol o chwilfrydedd proffesiynol ac ansicrwydd parchus gyda lleiafrif, yn enwedig lle mae pryderon yn ymwneud â cham-drin domestig a niwed y tu allan i'r teulu. Mae rhai atgyfeiriadau yn cael eu categoreiddio fel rhai lle nad oes angen unrhyw gamau pellach heb roi ystyriaeth ddigonol i niwed hanesyddol a chronnus, a chaiff ymyriadau eraill eu cau heb gynlluniau wrth gefn effeithiol. Mae'r cofnodion gofal cymdeithasol yn dangos bod hyn yn gysylltiedig â phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n dibynnu gormod ar brosesau hunangofnodi gan rieni neu ddiffyg ymgysylltiad. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod trothwyon yn cael eu cymhwyso'n gyson a bod prosesau gwneud penderfyniadau yn cael eu cefnogi gan ddadansoddiad cadarn o risg ac angen.**

**Llesiant**

## Cryfderau

4.21 Mae'r ymarferwyr yn cydymffurfio â'r amserlenni statudol o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer ymweld, grwpiau craidd, a chynadleddau amddiffyn plant. Mae tystiolaeth o gyfranogiad a chyfraniadau amlasiantaethol yn ystod pob proses amddiffyn plant.

4.22 Mae plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn cael ymweliadau ac adolygiadau amserol yn unol â gofynion Deddf 2014. Mae'r rhan fwyaf o blant a theuluoedd sy'n mynd i'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau a wneir.

4.23 Mae'r awdurdod lleol wedi lleihau nifer y plant sy'n cael eu gosod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac sy'n dechrau Derbyn Gofal yn raddol. Mae ceisiadau am Orchmynion Gofal wedi lleihau, a dim ond fel dewis olaf y defnyddir yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Mae ffocws strategol ar blant sy'n gadael gofal a thystiolaeth bod yr awdurdod lleol yn datblygu cynlluniau sefydlogrwydd, gan gynnwys defnydd gwell o Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig i sicrhau trefniadau sefydlog, sy'n seiliedig ar y teulu.

4.24 Mae trefniadau comisiynu a digonolrwydd lleoliadau yn cynnal pwyslais ar sefydlogrwydd. Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu lleoliadau preswyl mewnol yn sylweddol. Mae hyn yn lleihau dibyniaeth ar leoliadau drud y tu allan i'r ardal, ac yn gwella digonolrwydd ar gyfer lleoliadau cymhleth.

4.25 Mae'r gwasanaethau plant yn ymgorffori dulliau gwaith cymdeithasol systemig ar draws yr holl wasanaethau. Gwelsom enghreifftiau da o waith cynllunio diogelwch lle mae'r gweithiwr cymdeithasol wedi defnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma i gefnogi camau i reoli ymddygiad yn gadarnhaol. Er bod y timau a'r ymarferwyr ar gamau gwahanol o ran rhoi ymarfer systemig ar waith, mae bron pob aelod o'r staff yn cefnogi'r dull gweithredu ac yn disgrifio manteision dulliau sy'n ystyriol o seicoleg.

4.26 Mae'r Gwasanaeth Diogelu ac Adolygu bellach yn cael ei reoli'n fewnol gan yr awdurdod lleol. Mae bron pob adolygiad yn amserol a cheir lefelau presenoldeb da gan asiantaethau, gan gryfhau atebolrwydd ar draws partneriaid. Byddai canolbwyntio mwy ar lais y plentyn, trothwyon, dadansoddi a'r rhesymeg dros wneud penderfyniadau yn cryfhau cynadleddau ymhellach.

## Meysydd i'w Gwella

4.27 Nid yw asesiadau'n dangos ffocws digonol ar allu rhianta, cymhelliant i newid, ac opsiynau ar gyfer cynllunio diogelwch a sefydlogrwydd yn gyson. Mae'r arweinwyr wedi cydnabod bod hwn yn faes i'w wella ac maent yn hyrwyddo gweithdai i gryfhau ansawdd asesiadau. **Dylai'r awdurdod lleol wella**

**ansawdd y gwaith dadansoddi mewn asesiadau a chynlluniau i sicrhau bod cysylltiad clir rhwng risg, niwed, cryfderau, diogelwch a chanlyniadau.**

4.28 Gwnaethom nodi cofnodion lle roedd chwilfrydedd proffesiynol yn gyfyngedig a lefel yr her yn annigonol. Mae anghysondeb yn y ffordd y mae'r ymarferwyr yn cymhwyso ymarfer systemig wrth asesu risg, gwneud penderfyniadau ynghylch diogelu a chynllunio diogelwch. Er bod dulliau systemig yn cael eu defnyddio'n helaeth mewn ymarfer gwaith cymdeithasol, nid ydynt yn cefnogi'r broses o nodi, dadansoddi a rheoli risg yn gyson. **Dylai'r arweinwyr gryfhau'r ffordd y defnyddir dulliau systemig i wella'r ffocws ar ganlyniadau diogelu.**

4.29 Mae gan yr awdurdod lleol fframwaith sicrhau ansawdd ac amrywiaeth o baneli sy'n ceisio cefnogi prosesau cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau, rheoli risg a sicrhau ansawdd yn y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r paneli yn dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd i adolygu tystiolaeth, rhannu gwybodaeth a chytuno ar gamau gweithredu. **Dylai'r arweinwyr barhau i gryfhau effeithiolrwydd gweithdrefnau sicrhau ansawdd a phaneli er mwyn sicrhau eu bod yn goruchwylio prosesau gwneud penderfyniadau, risg ac ansawdd ymarfer yn gyson.** Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod prosesau dadansoddi cadarn, trefniadau goruchwylio gan reolwyr a her adeiladol yn cael eu cymhwyso'n gyson er mwyn rhoi sicrwydd ystyrlon ynghylch ansawdd ymarfer.

**Partneriaeth**

**<u>Cryfderau</u>**

4.30 Mae partneriaid wedi datblygu panel anghenion cymhleth ac wedi cryfhau trefniadau rhianta corfforaethol. Mae'r gwelliannau strategol hyn yn cryfhau trefniadau rhannu gwybodaeth a llywodraethu rhwng y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol yn sylweddol. Mae partneriaid hefyd yn datblygu panel iechyd meddwl a llesiant emosiynol, a fydd yn cryfhau ymdrechion i gydgysylltu gwasanaethau atal yn unol â gofynion fframwaith NYTH.[1].

4.31 Dywed yr arweinwyr fod cydberthnasau adeiladol a her iach rhwng y sefydliadau partner. Mae adborth gan randdeiliaid yn dangos bod lefel uchel o hyder mewn gwaith partneriaeth, gan gynnwys hyder yn yr arweinwyr, arferion diogelu a phrosesau cydweithio amlasiantaethol. Gwelsom enghreifftiau da o hyn yn arwain at drefniadau gwell ar gyfer archwiliadau meddygol amddiffyn plant a llai o ddefnydd o fechnïaeth yr Heddlu.

[1] Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles) | LLYW.CYMRU

**Meysydd i'w Gwella**

4.32 Er bod y gwasanaethau cymdeithasol yn cyflawni dyletswyddau statudol i ymateb i atgyfeiriadau diogelu o fewn un diwrnod gwaith, nid yw'r rhai a roddodd wybod am yr achos yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am y canlyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad. Mae partneriaid hefyd yn mynegi pryder bod rhai cysylltiadau a chofnodion agored yn cael eu cau heb ystyried y risgiau'n ddigonol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y rhai sy'n rhoi gwybod am achosion yn cael gwybod am y canlyniad a dylid darparu'r rhesymau dros y penderfyniad. Dylid hysbysu'r sawl a roddodd wybod am yr achos am y protocolau uwchgyfeirio os bydd yn anghytuno â'r penderfyniad ac yn methu datrys y mater. Dylai'r arweinwyr barhau i weithio gyda'r ymarferwyr i gryfhau ansawdd y penderfyniadau i gau achosion a chynlluniau wrth gefn.**

4.33 Nododd arolygiad Arolygiaeth Prawf EF o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghwm Taf yn 2024 wendidau yn yr ymateb strategol a gweithredol i achosion o gamfanteisio ar blant a niwed y tu allan i'r teulu. Ers hynny, mae partneriaid rhanbarthol wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau amlasiantaethol, ochr yn ochr â hyfforddiant, archwiliadau a strwythurau dysgu i gryfhau ymatebion i achosion o gamfanteisio a diogelu cyd-destunol. Mae'r arweinwyr yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried y posibilrwydd o recriwtio arweinydd rhanbarthol ar gyfer ymarfer mewn perthynas â chamfanteisio ar blant. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn arwain at welliannau cyson eto, a gwelsom enghreifftiau o bartneriaid statudol yn defnyddio ac yn goddef iaith ormesol i ddisgrifio pobl ifanc sy'n wynebu risg. **Dylai'r arweinwyr statudol gryfhau dealltwriaeth yr ymarferwyr o ddatblygiad pobl ifanc a sicrhau bod pob asesiad a chynllun yn parhau i ganolbwyntio ar risg a bregusrwydd. Dylai'r arweinwyr hefyd ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r ffordd y defnyddir iaith a chryfhau gallu'r ymarferwyr, y rheolwyr a chadeiryddion cynadleddau i herio'r defnydd o iaith sy'n labelu ac yn bychanu. Dylai'r awdurdod lleol fonitro effaith datblygiadau strategol ar ymarfer a chanlyniadau i blant.**

4.34 Mae diogelu yn ystod cyfnodau pontio yn faes ymarfer sy'n arbennig o berthnasol i bobl ifanc a phlant sy'n wynebu risg o niwed y tu allan i'r teulu. Mae'r arweinwyr wedi datblygu polisi pontio a phanel pontio; ac maent yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i hyrwyddo gwelliannau. **Rhaid i'r gwasanaethau plant sicrhau bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael eu cymhwyso'n effeithiol a bod plant sy'n troi'n 18 oed yn cael eu cyfeirio at wasanaethau oedolion pan fydd dyletswydd i roi gwybod am yr unigolyn hwnnw.** Dylid sicrhau mai lles yr oedolyn sy'n wynebu risg yw'r brif ystyriaeth wrth wneud unrhyw benderfyniadau ynghylch a ddylid ceisio cydsyniad cyn rhoi gwybod am yr unigolyn a dylai'r ymarferwyr wneud pob

ymdrech i geisio cydsyniad yr oedolyn lle y bo'n bosibl. **Dylai arweinwyr y gwasanaethau oedolion a phlant barhau i gydweithio i gryfhau dulliau diogelu yn ystod cyfnodau pontio.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar 26 o gofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain.
- Gwnaethom ymgysylltu ag 17 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy grwpiau ffocws a chyfweliadau, â 42 o randdeiliaid yr awdurdod lleol.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy grwpiau ffocws a chyfweliadau, â 10 sefydliad partner a rhanddeiliaid eraill.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol. Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr archwiliad sicrwydd hwn yn Gymraeg.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |

| | |
|---|---|
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

## Atodiad 2

### Tabl Diffinio Meintiau

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai nag 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |